Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Cemaes**

**Ysgol Gynradd**
**Cemaes**
**LL67 0LB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**13 Chwefror 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Cemaes wedi'i gofrestru i ofalu am uchafswm o 13 o blant o gaban ar safle'r ysgol gynradd leol ym mhentref Cemaes, Ynys Môn. Ted Huws yw'r person cofrestredig a Rebecca Griffiths yw'r person â chyfrifoldeb am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaeth ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau bob wythnos yn ystod y tymor rhwng 8:50am a 11:20am i blant rhwng 2 a 4 oed. Gall y plant sy'n mynd i'r ysgol yn y prynhawn ddewis aros tan 12:30pm. Mae'r gwasanaeth yn cynnal Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar yr Awdurdod Lleol i blant rhwng 3 a 4 oed a chaiff ei arolygu gan Estyn. Mae'r holl staff yn ddwyieithog, yn siarad Cymraeg a Saesneg ac mae'r gwasanaeth yn cynnig 'Cynnig Rhagweithiol' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo. Maent yn mwynhau profiadau chwarae a dysgu diddorol sydd wedi'u cynllunio'n ddigonol i hyrwyddo eu datblygiad. Yn gyffredinol, mae'r tîm newydd o staff sydd wedi'u penodi yn awyddus, yn frwdfrydig ac yn cydweithio'n dda â'i gilydd. Mae trefn a strwythur yn galluogi'r plant i deimlo'n ddiogel. Mae'r amgylchedd wedi'i gynllunio'n dda ac mae'r gwelliannau a wnaed ers yr arolygiad diwethaf yn fuddiol. Mae'r arweinwyr yn frwdfrydig ac yn defnyddio dulliau arloesol i gynllunio a rhoi newidiadau ar waith. Maent yn ymgynghori â'r rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn cydweithio mewn partneriaethau i ddarparu gwasanaeth y mae'r plant a'u teuluoedd yn cael budd ohono.

### 2. Gwelliannau

Mae'r holl argymhellion a wnaed yn ystod yr arolygiad diwethaf wedi'u rhoi ar waith;

- gwelsom gofnod ysgrifenedig o arfarniadau blynyddol;
- roedd y datganiad o ddiben wedi cael ei ddiweddaru ac yn rhoi darlun cywir o'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei weithredu.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r gwasanaeth yn gweithredu o gaban ar dir yr ysgol a phrynwyd ystod o adnoddau newydd yn dilyn cais llwyddiannus am grant sy'n cynnig amrywiaeth o brofiadau chwarae a dysgu i blant dan do ac yn yr awyr agored.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymhellion mewn perthynas â hyrwyddo annibyniaeth y plant, rheoli heintiau, cadw cofnodion a rhoi technegau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant wedi ymlacio, ymgartrefu yno ac yn cyfleu eu hanghenion yn hyderus.  Maent yn gwybod y bydd y staff yn gwrando ar eu barn a'u syniadau ac yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol yn sgil hynny.  Mae'r plant yn chwarae'n dda gyda'i gilydd, yn meithrin cyfeillgarwch ac yn datblygu annibyniaeth ond gellid datblygu hyn ymhellach.  Cânt gyfleoedd datblygiadol cadarnhaol sy'n eu helpu i ddysgu a thyfu.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn ymroi i wneud dewisiadau a phenderfyniadau.

Mae'r plant yn arwain eu chwarae eu hunain yn hyderus, roeddent yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael ar eu cyfer ac felly'n chwarae'n frwdfrydig o ganlyniad i hynny. Clywsom y plant yn dweud wrth y staff eu bod yn bwriadu chwarae 'doctoriaid' ac aethant ymlaen i ddweud wrth y staff y gallent helpu drwy fynd i gasglu adnoddau ychwanegol ar gyfer eu gêm. Cafodd y plant eu hannog i fynegi eu barn, dod o hyd i atebion a gwneud pethau drostynt eu hunain.  Aeth un plentyn i gasglu darn jig-so a gofyn p'un a fyddai'r staff yn ymuno ag ef/hi i'w gwblhau. Unwaith y cafodd y gweithgaredd ei osod, newidiodd y plentyn ei feddwl a dweud wrth y staff y byddai'n well ganddo wneud rhywbeth arall. Cefnogwyd y plentyn i ddewis gweithgaredd arall y byddai'n ei fwynhau.

Mae'r plant yn mynegi eu barn yn llwyddiannus ac yn cyfrannu at syniadau, themâu a phynciau yn llwyddiannus.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gwybod bod staff ar gael i'w cefnogi.

Roedd y plant yn gyfarwydd â threfn y gwasanaeth, a oedd yn rhoi ymdeimlad o sicrwydd iddynt.  Er enghraifft, roedd y plant yn gyfarwydd ag 'amser cylch' a'r hyn a ddisgwylir ganddynt ar adegau gwahanol o'r diwrnod, megis gwisgo eu cotiau cyn mynd i chwarae ac aros mewn llinell i bawb fod yn barod. Roedd y plant wedi ymlacio, yn gyfarwydd â'r rheini o'u cwmpas ac yn gwybod â phwy i siarad os oeddent yn anhapus. Er enghraifft, clywsom un plentyn yn dweud wrth y staff ei fod yn teimlo'n drist ac roedd yn gallu egluro'r rheswm dros hyn. Roedd y plant yn gwybod y caiff eu teimladau eu hystyried ac roedd hyn yn eu hannog i fagu hyder a hunan-barch cadarnhaol.

Mae'r plant yn ymdopi'n dda; cânt eu cefnogi'n dda ac maent yn cael budd o ymdeimlad o ddiogelwch sy'n diwallu eu hanghenion.

## 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu sut i reoli eu hymddygiad, cydweithio a rhannu gyda'r rheini o'u cwmpas.

Roedd y plant yn dechrau deall eu teimladau ac emosiynau unigolion eraill. Er enghraifft, cafodd y plant eu cefnogi i groesawu eraill i ymuno â'u gemau, i rannu a chymryd eu tro. Roedd y plant yn cydymffurfio â'r rheolau a'r disgwyliadau ymddygiad. Roeddent yn gwrtais ac yn defnyddio moesau da; er enghraifft, gwnaethant ddiolch i'r staff wrth dderbyn yr adnoddau yr oedd eu hangen arnynt gan olygu eu bod yn dangos caredigrwydd a pharch tuag at y rheini o'u hamgylch yn llwyddiannus.

Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau boddhaus ac yn dechrau deall eu teimladau ac emosiynau unigolion eraill.

## 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig.

Gwnaeth y plant ddyfalbarhau am gyfnod priodol o amser ac roedd ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at weithgareddau. Mwynhaodd y plant y gweithgaredd dan arweiniad oedolyn a oedd yn trafod maint a siâp amrywiaeth o anrhegion Nadolig. Roeddent yn awyddus i ddysgu, ac yn meithrin ymdeimlad o gyflawniad wrth gael eu llongyfarch am gymryd rhan. Yn ystod amser cylch, dangosodd y plant eu bod wedi bod yn talu sylw drwy ymateb yn dda i'r cwestiynau a ofynnwyd ac roedd pob un ohonynt yn gyfarwydd â'r caneuon Nadolig y byddent yn eu canu yn y sioe Nadolig. Roedd y plant yn awyddus i rannu'r hyn roeddent wedi'i wneud; er enghraifft, gwelsom blentyn yn gofyn i'r staff ysgrifennu ei henw ar y gwaith a gwblhawyd gan ei bod am ei gadw i ddangos i'w rhieni. Gwnaeth rôl 'cynorthwyydd y dydd' helpu i roi ymdeimlad o falchder i'r plant, ac aeth y plentyn a ddewiswyd ati i gwblhau'r tasgau dynodedig yn llawn brwdfrydedd. Roedd y plant yn mwynhau sgwrsio â'i gilydd yn ystod prydau bwyd, ond cawsant eu hatgoffa'n aml i fod yn dawel ac roedd hyn yn eu hatal rhag trafod yr hyn roeddent yn ei wneud.

Caiff y plant ymdeimlad boddhaus o gyflawniad o'r hyn y maent yn ei wneud.

## 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn cael budd o amrywiaeth eang o brofiadau sy'n cynnig cyfleoedd chwarae a dysgu amrywiol.

Cafodd y plant eu cymell yn naturiol i ddewis a chyfeirio eu chwarae eu hunain. Roedd y gweithgareddau yn barod ar gyfer y plant ac fe'u gwelsom yn symud o un gweithgaredd i'r llall. Er enghraifft, cymerodd un plentyn ran mewn gweithgaredd dan arweiniad oedolyn ac yna ymunodd â grŵp o blant yn eu gêm nhw. Cyflawnodd y plant bethau drostynt eu hunain, megis helpu i roi teganau gadw a defnyddio'r toiled. Collwyd cyfleoedd yn ystod

prydau bwyd i alluogi'r plant i gwblhau tasgau drostynt eu hunain yn unol â'u hoedran a'u gallu. Er enghraifft, arllwys eu diodydd eu hunain.

Caiff y plant eu cymell i ddilyn eu diddordebau personol a dangos mentergarwch da.

# 2. Gofal a Datblygiad

## Crynodeb

Mae'r staff yn drefnus ac yn dilyn arferion priodol i gadw'r plant yn iach, yn ddiogel ac yn dda. Maent yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol ac yn gosod ffiniau realistig yn gyffredinol. Mae'r staff yn hybu profiadau chwarae a dysgu'r plant yn llwyddiannus.

## Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth o'r ffordd i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

Roedd y staff yn gwbl ymwybodol o'r prosesau i'w dilyn mewn perthynas â diogelu plant; roedd ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ddiwallu anghenion meddygol y plant yn ogystal â gweithdrefnau i gysylltu â rhieni mewn argyfwng. Gwnaethant hyrwyddo ffyrdd iach o fyw drwy gynnig bwydlen byrbrydau amrywiol ac roeddent mewn cyswllt â'r Dietegydd Iechyd Cyhoeddus yn rheolaidd. Roedd y staff yn annog y plant i wneud ymarfer corff drwy gynllunio cyfleoedd rheolaidd i chwarae yn yr awyr agored bob dydd. Roedd y staff yn hyrwyddo hylendid da drwy gefnogi'r plant i olchi eu dwylo yn rheolaidd cyn prydau bwyd ac ar ôl chwarae yn yr awyr agored. Gwelsom nad oedd y gweithdrefnau newid cewynnau yn dilyn yr arfer da a argymhellir yn llawn er mwyn lleihau'r risg o groeshalogi am nad oedd gorchudd wedi'i osod dros yr ardal newid. Gwnaethom grybwyll hyn i'r person â chyfrifoldeb ac argymell y dylid dilyn y weithdrefn gywir.

Mae'r staff yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac yn sicrhau bod y plant mor ddiogel â phosibl bob amser.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Roedd y staff yn rheoli'r rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol ar y cyfan.

Roedd gan y staff ddealltwriaeth resymol o arfer gorau mewn perthynas â gosod ffiniau realistig. Gwnaeth y staff sicrhau bod y plant yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir ganddynt, ond roeddent yn tueddu i reoli chwarae ac ymddygiad y plant yn ormodol ar adegau yn hytrach na rhoi technegau rheoli ymddygiad cadarnhaol a chefnogi ymddygiadau a ddisgwylir ar waith. Er enghraifft, tra bod y plant yn brwsio eu dannedd, safodd y staff sefyll y tu ôl i'r plant, a dweud wrthynt am gario ymlaen; rhoddwyd sawl cyfarwyddyd i'r plant yn hytrach nag ymuno â nhw yn y gweithgaredd. Defnyddiwyd dulliau y cytunwyd arnynt i hyrwyddo ymddygiad da; er enghraifft cafodd yr holl blant eu gwobrwyo â sticer, ond ni wnaeth y staff egluro'r rhesymau dros eu gwobrwyo ac felly nid oedd y plant yn gwbl ymwybodol o'r rhesymau dros gael sticer a fyddai wedi'u helpu i ddeall goblygiadau eu gweithredoedd yn y dyfodol.

Mae'r staff yn ceisio gosod ffiniau realistig ac mae ganddynt ddisgwyliadau rhesymol o safonau ymddygiad.

## 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn cynllunio amrywiaeth eang o brofiadau dysgu a chwarae o ansawdd da i'r plant yn rheolaidd.

Mae darparu profiadau dysgu cadarnhaol i'r plant wrth wraidd gwaith y staff. Mae'r holl staff yn cymryd cyfrifoldeb am gynllunio themâu a gweithgareddau a gwelsom dystiolaeth ysgrifenedig a oedd yn dangos bod y staff yn nodi anghenion dysgu unigol ac yn darparu profiadau i ddiwallu'r anghenion hynny yn llwyddiannus, megis sgiliau dal pensil. Mae'r staff yn cynllunio ac yn rhoi dulliau arloesol ar waith yn rheolaidd i wneud dysgu'n ddiddorol i'r plant.

Gweithiodd y staff yn rheolaidd yn agos ag asiantaethau allanol i hyrwyddo a galluogi'r plant i gyflawni eu potensial llawn. Mae'r arweinwyr wedi mynychu digwyddiadau hyfforddiant yn ddiweddar a chael gafael ar adnoddau perthnasol i alluogi'r staff i ddefnyddio dulliau asesu cymeradwy. Bydd hyn yn galluogi'r staff i asesu gallu unigol y plant ymhellach ac mae'n darparu adnoddau ychwanegol i helpu'r staff i deilwra profiadau unigol. Rhoddodd y staff y cyfnod sylfaen ar waith yn llwyddiannus a hyrwyddo dysgu'r plant mewn amgylchedd cefnogol a chynhwysol.

Mae'r staff yn cynllunio amrywiaeth eang o brofiadau dysgu diddorol ac yn sicrhau bod y profiadau a gynigir ar gael dan do ac yn yr awyr agored.

# 3. Yr Amgylchedd

## Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân.  Mae'r amgylchedd yn diwallu anghenion y plant yn dda ac mae'r arweinwyr yn darparu adnoddau o ansawdd da.

## Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a glân.

Roedd yr arweinwyr a'r holl staff yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â sicrhau diogelwch yr amgylchedd bob amser. Roedd asesiadau risg cynhwysfawr wedi'u cwblhau a chawsant eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd, ond nid oeddent yn nodi'r dyddiadau cwblhau.  Cyn i'r plant fynd allan i chwarae, gwnaeth y staff sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a bod gwiriadau diogelwch dyddiol gweledol yn cael eu cwblhau. Mae systemau effeithiol ar waith i sicrhau y caiff yr adeilad ei gynnal a'i gadw a chymerir camau gweithredu cyflym yn ôl yr angen. Cwblhawyd ymarferion tân yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ond ni chafodd ymarfer tân ei gwblhau ers dechrau'r tymor newydd, gan olygu na fyddai plant newydd yn gyfarwydd â'r hyn sydd angen ei wneud pe byddai tân. Gweithredodd yr arweinwyr ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a chwblhau ymarfer tân yn dilyn yr arolygiad.

Mae'r arweinwyr yn rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith i sicrhau y caiff risgiau eu nodi a'u dileu lle y bo'n bosibl.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd sy'n diwallu anghenion y plant yn llwyddiannus.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn darparu amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r cynllun a'r dyluniad yn hyrwyddo annibyniaeth y plant ac yn eu galluogi i ddefnyddio gwahanol feysydd dysgu gan gynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd.  Mae'r arweinwyr yn sicrhau y gall y plant archwilio'r amgylchedd yn ddirwystr a rhoddir blaenoriaeth uchel i'r ardal chwarae yn yr awyr agored a chaiff ei defnyddio'n rheolaidd. Cafodd y cyfleoedd dysgu diddorol dan do eu cynnig yn yr ardal awyr agored hefyd. Roedd ymateb y plant i chwarae yn yr awyr agored yn dangos faint yr oeddent yn mwynhau'r profiadau a gynigir.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael eu gofalu'n rheolaidd mewn amgylchedd ysgogol a chyfforddus sy'n adlewyrchu anghenion a diddordebau'r rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

## 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar?

Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth eang o deganau a chyfarpar o ansawdd da sy'n darparu cyfoeth o weithgareddau gwahanol a diddorol i'r plant.

Roedd y defnydd o gyfarpar ac adnoddau wedi'i gynllunio'n ofalus er mwyn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu gwahanol i'r plant ac roeddent yn ymwneud â'r thema bresennol. Roedd digon ohonynt ar gael ac roeddent yn sicrhau bod y plant yn cael amrywiaeth dda o ddewis. Cyflwynwyd gwahanol weadau i hyrwyddo chwilfrydedd y plant; roeddent yn cynnwys eitemau'r cartref, adnoddau naturiol, synhwyraidd ac adnoddau y gellid eu cyffwrdd. Roedd yn hawdd i'r plant gael gafael ar yr adnoddau a oedd wedi'u storio a'u labeli'n dda. Roedd dulliau storio effeithiol hefyd yn golygu bod yr adnoddau yn yr awyr agored yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn lân. Roedd yr adnoddau i gyd o ansawdd da ac yn golygu eu bod yn dod â'r dysgu yn gyw i'r plant.

Mae'r adnoddau a'r cyfarpar sydd ar gael yn hyrwyddo chwilfrydedd y plant ac yn gwella eu profiadau a'u datblygiad.

## 4.Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth ar gyfer eu gwasanaeth. Maent yn rhoi prosesau cyson ar waith i ddadansoddi'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol a chytuno ar welliannau. Mae'r arweinwyr yn cefnogi'r staff ac yn sicrhau y cânt eu cymell i ddarparu gwasanaeth llawn gofal.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn awyddus i ddarparu gofal o safon uchel.

Roedd yr arweinwyr yn gweithio gyda gofal a sylw dyledus i ddarparu gwasanaeth pwrpasol sy'n hyrwyddo gwelliannau cynaliadwy a pharhaus. Mae'r arweinwyr ar gael ac yn amlwg i gynnig cymorth i'r staff er mwyn sicrhau y caiff y gwasanaeth ei gynnal yn ddidrafferth. Mae'r arweinwyr yn cynnig canllawiau i'r staff er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r arweinwyr yn herio'r staff yn gadarnhaol i sicrhau y caiff polisïau effeithiol eu rhoi ar waith yn llawn.

Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau uchel ac maent yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar anghenion y plant a chanlyniadau cadarnhaol i bawb.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn adolygu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ac yn rhoi strategaethau cyson ar waith i ddatblygu'r gwasanaeth yn ôl yr angen.

Gwelsom dystiolaeth o'r arweinwyr yn asesu canlyniadau ac ystyried yr hyn maent yn ei wneud yn rheolaidd. Mae'r arweinwyr yn anfon holiaduron adborth at y rhieni yn rheolaidd er mwyn casglu eu barn ar y gwasanaeth. Defnyddir y wybodaeth a gaiff ei chasglu yn effeithiol i roi cymorth i arweinwyr nodi'r meysydd i'w datblygu. Mae gan y gwasanaeth eu caban eu hunain ar dir yr ysgol ers yr arolygiad diwethaf, sy'n golygu bod ganddynt safle eu hunain. I'w cefnogi i ddatblygu'r gwasanaeth, mae'r arweinwyr wedi ymweld â gwasanaethau eraill yn yr ardal i rannu syniadau ac arfer da. Caiff ceisiadau am grantiau eu cyflwyno'n rheolaidd i dderbyn cyllid i lywio gwelliannau pellach a darparu cyfleoedd chwarae a dysgu cadarnhaol i'r plant.

Mae cryfderau a meysydd i'w datblygu yn cael eu cydnabod gan yr arweinwyr a chymerir camau gweithredu rheolaidd er mwyn cynnal a gwella ymarfer.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn cael cymorth da ac yn rheoli adnoddau'n dda.

Sicrhaodd yr arweinwyr fod y staff yn gymwys ac yn brofiadol. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn addas i ofalu am y plant drwy gynnal y gwiriadau perthnasol, gan gynnwys cwblhau hyfforddiant sefydlu. Roedd y gwasanaeth yn drefnus ac roedd y staff a'r arweinwyr yn awyddus i wella ansawdd y gofal a roddir i'r plant ac, felly, yn cynnig gwasanaeth gwell yn barhaus.  Mae'r arweinwyr a'r staff yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth. Mae'r arweinwyr yn cynnal arfarniadau staff blynyddol, yn eu goruchwylio'n rheolaidd ac yn nodi amcanion y cytunir arnynt i hyrwyddo datblygiad a dysgu'r staff ymhellach.

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth a'r staff yn dda ac, o ganlyniad, mae'r plant yn cael budd o wasanaeth effeithiol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn datblygu cysylltiadau â phartneriaid yn y gymuned ac yn cydweithio mewn partneriaeth â'r rhieni.

Mae'r arweinwyr wedi rhoi dulliau cadarnhaol ar waith i sicrhau bod y rhieni yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf, maent yn derbyn adborth ar lafar yn rheolaidd a chânt eu croesawu yn y gwasanaeth. Gwelsom fod gan y gwasanaeth gydberthynas gadarnhaol ac ystyrlon â'r ysgol gyfagos a mwynheuodd y plant y cinio Nadolig a ddarparwyd gan yr ysgol yn fawr iawn.  Mae'r arweinwyr yn cefnogi'r staff a'r plant i fod yn aelodau brwd o'r gymuned ac maent yn ymweld â llefydd o ddiddordeb yn y gymuned yn rheolaidd.

Mae'r arweinwyr yn cynnal ac yn hyrwyddo partneriaethau cadarnhaol.

# 5.Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Dylai'r arweinwyr ystyried y canlynol;

- darparu cyfleoedd ychwanegol i wneud pethau drostynt eu hunain i ddatblygu eu hannibyniaeth eu hunain;
- rhoi gorchudd dros y mat newid cewynnau i leihau'r risg o groeshalogi;
- cofnodi dyddiad cwblhau'r gwaith a nodwyd ar yr asesiadau risg;
- hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac
- egluro'r rhesymau dros wobrwyo'r plant am ymddygiad cadarnhaol.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 6 Rhagfyr 2018 rhwng 9:20am a 12:30pm.

Gwnaethom y canlynol:

- Archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau er mwyn nodi tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan y staff;
- siarad â'r plant a'r staff a oedd yn bresennol;
- ystyried diogelwch ac addasrwydd yr amgylchedd a'r adnoddau ar gyfer y plant; rhoi adborth i'r person â chyfrifoldeb dros y ffôn

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn a wnawn ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Person Cofrestredig** | **Ted Huws** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Rebecca Griffiths** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **13** |
| **Ystod oedran y plant** | **Rhwng 2 a 4 oed** |
| **Oriau agor** | **8:50am – 11:20am**<br>**11:20am – 12:30pm**<br>**Dydd Llun i ddydd Iau yn ystod y tymor yn unig** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **08 Rhagfyr 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **06 Rhagfyr 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Ydy – Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |